

Seremoni Dyfarnu Medal y Cymmrodorion
i'r Athro R. Geraint Gruffydd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 15 Chwefror 2014

*Anerchiad yr Athro Dafydd Johnston
Cyfarwyddwr Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru*

Mae'r cyfle hwn i gyflwyno yr Athro R. Geraint Gruffydd yn fraith fawr ac yn bleser personol i mi, a hynny am nifer o resymau. Mae'n gyfle yn y lle cyntaf i gydnabod fy nyled iddo ef fel Cyfarwyddwr cyntaf y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, a'r un oedd yn gyfrifol am ei gosod ar seiliau academiaidd cadarn. Ond mae fy nyled personol i i Geraint Gruffydd yn mynd yn ôl tipyn yn bellach na hynny, oherwydd ef oedd pennaeth Adran y Gymraeg pan ddes i i Aberystwyth yn fyfyrwr ymchwil yn 1978, ac i un fel fi a oedd wedi arfer â ffurfioldeb Seisnig Caergrawnt roedd cynhesrwydd y croeso a gefais i gan yr Athro Gruffydd yn hyfrydwch, ac mi alla'i ddweud, fel sawl un arall yn y byd academiaidd Cymraeg, fod ei ddiddordeb cyson yn fy ngwaith dros y blynyddoedd ers hynny wedi bod yn galonid mawr i mi. Rhwng ei gyfnodau yn Adran y Gymraeg ac yn y Ganolfan fe ddaliodd Geraint Gruffydd swydd aruchel arall, sef Llyfrgellydd Cenedlaethol Cymru, ac felly mae'n weddus iawn mai yn yr adeilad hwn yn ydym wedi ymgynnull heddiw i dalu teyrnged iddo.

Yn ogystal â'r cyfle i gydnabod dyled, mae'r cyflwyniad hwn wedi rhoi cryn bleser i mi hefyd am ei fod yn esgus i dreulio amser yn ailddarllen nifer o gyhoeddiadau'r Athro Gruffydd, ac rwy'n gobeithio rhannu peth o'r pleser hwnnw gyda chi nawr trwy fwrw golwg dros ei waith, a thrwy ddarllen rhai darnau i chi gael blasu arddull loyw ei ryddiaith.

Y peth cyntaf sy'n taro dyn wrth edrych ar waith cyhoeddedig Geraint Gruffydd yw ehangder ei ddiddordebau academiaidd. Dros gyfnod o fwy na thrigain mlynedd mae wedi cyhoeddi gwaith o bwys ar bob cyfnod yn hanes llenyddiaeth Gymraeg. Ac felly yr hyn rwyf am ei wneud nawr yw mynd â chi ar daith ar hyd rhai o uchelfannau y traddodiad llenyddol Cymraeg yng nghwmni yr Athro R. Geraint Gruffydd.

Bydd dwy nodwedd ar ei waith yn dod i'r amlwg drosodd a thro, a'r rheini rwy'n meddwl yn nodweddion deniadol iawn. Un yw ei ddiddordeb yn yr awduron fel unigolion – y cydymdeimlo, yr ymuniaethu, yr edmygedd a'r awydd i ddathlu eu campau. A'r nodwedd arall yw'r pwyslais ar ddechreuadau a throbwyntiau. Yr arloeswyr sydd wedi ei ddenu fwyaf, yr awduron a aeth â'r traddodiad i gyfeiriadau newydd. A thrwy'r cwbl mae ei sylw ar yr hyn sy'n arhosol, ac yn hanfodol i wareiddiad Cristnogol Cymru.

Nid yw'n syndod, felly, fod gwaith y Cynfeirdd wedi bod yn destun diddordeb cyson ganddo, ac yn enwedig y cerddi gwasgaredig hynny rhwng y seithfed ganrif a'r unfed ganrif ar ddeg sy'n brawf bod traddodiad y beirdd llys wedi parhau ers cyfnod Taliesin ac Aneirin, a lle gwelir y ffydd Gristnogol yn elfen hanfodol yn y mawl am y tro cyntaf.

Un o'r cerddi hynny yw 'Canu Cadwallon ap Cadfan', sy'n destun pennod

gan Geraint Gruffydd yn *Astudiaethau ar yr Hengerdd* (sef cyfrol deyrnged i'w athro yn Rhydychen, Syr Idris Foster). Yr awdl foliant hon i Gadwallon, brenin Gwynedd tua 625-35, yw'r gerdd gynharaf sy'n sôn am Gymru fel y cyfryw, ac un sydd hefyd yn cynnwys yr enghraifft gynharaf yn y Gymraeg o'r enw *Crist*.

Cyfrol deyrnged arall yw *Bardos* a olygwyd gan Geraint Gruffydd ei hun yn 1982 yn deyrnged i'r Athro J. E. Caerwyn Williams, gŵr a gafodd ddylanwad allweddol ar Geraint Gruffydd ar hyd ei yrfa, fel tiwtor iddo ym Mangor ac yn nes ymlaen fel cydweithiwr iddo ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn y Ganolfan. Yn y gyfrol honno dewisodd Geraint drafod 'Marwnad Cynddylan', gan ei dehongli fel cerdd ddilys i'r tywysog o Bowys o ganol y seithfed ganrif (yn wahanol i'r englynion chwedlonol diweddarach lle mae Heledd yn galaru am ei brawd Cynddylan). Mae Geraint Gruffydd wedi bod yn awyddus i amdiffyn dilysrwydd hanesyddol yr hen ganu sawl tro yn wyneb beirniadaeth amheugar gan rai haneswyr.

Felly hefyd yn achos hanes y brenin Cunedda. Yn 'From Gododdin to Gwynedd: Reflections on the Story of Cunedda' mae Geraint yn dadlau bod craidd o wirionedd yn y traddodiadau am y brenin Cunedda yn dod i lawr o ogledd Prydain i Gymru yn y bumed ganrif a seilio teyrnas Gwynedd, gan yrru allan y Gwyddelod a oedd wedi ymsefydlu yng Nghymru. Ac mae'n arwyddocaol mai Darlith O'Donnell a draddodwyd ym Mhrifysgol Caeredin yn 1989 oedd hon, gan mai'r cyswllt hynafol rhwng Cymru a'r Hen Ogledd sydd wrth wraidd hanes Cunedda. Mae nifer sylweddol o gyhoeddiadau Geraint Gruffydd wedi eu traddodi fel darlithoedd cyhoeddus yn wreiddiol, a dyma esiampl o'i ddawn i ganfod pwnc priodol i'r achlysur.

Mae traddodiadau rhanbarthol wedi cael cryn sylw gan Geraint Gruffydd, ac felly yn ogystal â'i waith ar hanes cynnar Gwynedd a Phowys, mae wedi astudio'r olion prinnach a oroesodd o ganu cynnar Dyfed a Deheubarth. Un gerdd neilltuol a hawliodd ei sylw yn y maes hwn yw 'Edmyg Dinbych', cerdd o chwarter olaf y nawfed ganrif sy'n disgrifio llys yn Ninbych y Pysgod. Y gerdd hon a ddewisodd Geraint yn bwnc ar gyfer ei ddarlith goffa i J. E. Caerwyn a Gwen Williams yn 2001, gan bwysleisio bod yr elfen Gristnogol erbyn hynny'n gwbl ganolog i fawl y bardd, sy'n dechrau ei gerdd trwy alw ar Dduw.

Mater arall yw mynegiant o brofiad ysbrydol personol mewn barddoniaeth, ac mae Geraint Gruffydd yn feirniad sydd yn ei elfen yn dehongli cerddi o'r fath, fel y gwelir yn ei drafodaeth dreiddgar ar y delyneg swynol ac enigmatig 'Cyntefin ceinaf amser' a ddiogelwyd yn Llyfr Du Caerfyrddin (y llawysgrif Gymraeg hynaf oll, sydd i'w gweld mewn arddangosfa yn yr adeilad hwn ar hyn o bryd). Yn ôl dehongliad Geraint Gruffydd mae'r gerdd hon yn waith mynach dienw o'r ddeuddegfed ganrif sy'n mynegi ymateb cymhleth i ddyfodiad y gwanwyn, wrth i'w hiraeth am ei gyfeillion coll droi'n obaith am fywyd tragwyddol drwy waredigaeth Crist. Mae'r ysgrif hon yn un o nifer gan Geraint Gruffydd yn y gyfres *Ysgrifau Beirniadol* sy'n arloesol o ran ymdriniaeth lenyddol â'r hen farddoniaeth, lle mae ysgolheictod a dychymyg yn cael eu cyfuno'n ffrwythlon iawn. Ac yn sicr mae ôl dylanwad golygydd y gyfres honno, Caerwyn Williams, i'w weld yn glir ar yr ysgrifau hyn.

Mae gwahaniaeth mawr rhwng y delyneg fach honno ac awdlau mawl mawreddog y beirdd llys yn yr un cyfnod, a mesur o fawredd Geraint Gruffydd

yw bod ei waith yn cwmpasu'r ddau begwn, y feirniadaeth lenyddol sensitif sydd angen i ddehongli cerdd unigol, a'r ysgolheictod testunol sydd angen i gyflawni'r dasg enfawr o olygu gwaith Beirdd y Tywysogion. A dyma ni'n dod at gampwaith mwyaf Geraint. Am flynyddoedd lawer fe fu gwaith astrus beirdd llys y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg yn un o rannau mwyaf anhygyrch y traddodiad barddol. Ond gyda sefydlu'r Ganolfan Uwchefrydiau yn 1985 cafodd Geraint Gruffydd y cyfle i arwain tîm o ymchwilwyr i olygu holl gerddi Beirdd y Tywysogion mewn cyfres fawreddog o saith gyfrol a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru rhwng 1991 a 1996. Ac rwy'n gwybod y byddai Geraint am i mi enwi ei gydweithwyr yn y tîm hwnnw, sef Morfydd Owen, Ann Parry Owen, Nerys Ann Jones, a Peredur Lynch, heb anghofio cyngor amhrisiadwy yr Athro Caerwyn Williams. Roedd gwaith tîm o'r fath yn beth newydd ym maes y dyniaethau ar y pryd, ac mae llwyddiant y prosiect hwn yn tystio i allu Geraint fel arweinydd academaidd.

Roedd diwedd cyfnod y Tywysogion yn argyfwng i'r gyfundrefn farddol, ac fe arweiniodd at drobwynt mawr yn hanes llenyddiaeth Gymraeg sydd wedi ysgogi peth o waith gorau Geraint Gruffydd. Un ymateb i'r argyfwng hwnnw oedd y Gramadegau Barddol, sef ymgais i ddiogelu hen gelfyddyd Beirdd y Tywysogion a'i haddasu ar gyfer yr oes newydd er mwyn sicrhau parhad y traddodiad wedi'r Goncwest. Gwaith eglwyswyr oedd y gramadegau yn bennaf, ac mae'r awydd i sicrhau seiliau moesol y traddodiad barddol yn gyfraniad pwysig mewn cyfnod o drawsnewid. Canolbwyntiodd Geraint ei sylw yn y lle cyntaf ar unigolyn allweddol, Dafydd Ddu o Hiraddug, canon yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ac wedyn aeth ati i olygu barddoniaeth y ddau brif ramadegydd, *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug* (cyfrol ar y cyd â Rhiannon Ifans yng nghyfres 'Beirdd yr Uchelwyr', cyfres y mae Geraint wedi bod yn Olygydd Ymgynghorol arni ers iddo ymdeol yn swyddogol o'r Ganolfan yn 1993).

Yr ail ymateb llenyddol i argyfwng Cymru yn y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd y farddoniaeth newydd a gysylltir yn enwedig â'r arloeswr mawr, Dafydd ap Gwilym. Mae hwn yn un o'r awduron y mae Geraint Gruffydd wedi dychwelyd ato dro ar ôl tro dros y blynyddoedd, gan adeiladu corff cyfoethog o feirniadaeth. Unwaith eto mae'r gyfres 'Ysgrifau Beirniadol' wedi bod yn gyfrwng ar gyfer dehongliadau manwl a chraff. Gallaf dystio bod ei waith ar Ddafydd ap Gwilym wedi bod yn ysbrydoliaeth i finnau, erthyglau fel yr un ar 'Offeren y Llwyn' (1977) sy'n dangos pa mor bwysig oedd defodau'r eglwys i ddychymyg Dafydd, a'r ceiliog bronfraith fel offeiriad yn llefaru geiriau'r offeren yn eglwys y goedwig; a'i ysgrif am 'Yr Adfail' (1979) sy'n ei gosod mewn traddodiad hir o gerddi Cymraeg, Hen Saesneg, Lladin a Gwyddeleg sy'n myfyrio uwchben adfeilion (a dyna esiampl o ehangder gorwelion llenyddol Geraint Gruffydd); y cywyddau triawdaidd wedyn (1985), ac yn uchafbwynt ar y cwbl ei gyfrol loyw yn y gyfres 'Llên y Llenor' yn 1987, sy'n rhoi cynnig ar adlunio bywyd y bardd a'i garwriaethau, ac yn enwedig ei berthynas hir a throellog â Morfudd.

Wel mae'n hen bryd i chi gael clywed llais Geraint Gruffydd ei hun, felly dyma rann o ddiwedd glo'r gyfrol honno:

Wrth ddarllen gwaith Dafydd ap Gwilym yr ydym yn ymwybodol ein

bod ym mhresenoldeb athrylith. Yr oedd yn ddiamau yn un o feirdd mawr Ewrop yn yr Oesoedd Canol diweddar ac yn un o feirdd mwyaf Cymru mewn unrhyw oes – efallai y mwyaf oll. Gellir yn hawdd gredu ei fod yn fardd o'r groth, o gofio am ei ddisgynyddiaeth anrhydeddus o Guhelyn Fardd a Gwynfardd Dyfed ddwy ganrif a hanner o'i flaen. Yn sicr yr oedd iddo ddoniau naturiol cwbl anghyffredin. Ymatebai i'r byd ac i fywyd gyda synhwyrâu miniog ac eiddgar. Gallodd feistrolï'n rhwydd grefft astrus y beirdd proffesiynol Cymraeg, ynghyd â dogn dda o'u canu ar hyd yr oesoedd. Mynnodd feddiannu hefyd foddau a deunydd y beirdd llai urddasol, a oedd rywfodd wedi etifeddu llawer o gonfensiynau canu serch gwledydd Ewrop ers tair canrif – ac efallai, fel y gwelsom, iddo gael mynedfa uniongyrchol at rai elfennau o'r canu hwnnw. Chwyldrôdd fyd barddoniaeth Gymraeg drwy ddyfeisio, neu o leiaf boblogeiddio, mesur newydd y cywydd a chreu ynddo gorff na welwyd ei debyg o'r blaen o ganu serch crefftus ac afieithus. Ond ei gamp fwyaf yn ddiamau oedd creu'r stori am Forfudd. Drwy'r stori hon gallodd Dafydd fynegi'n gyflawn ei weledigaeth o fywyd. Yr oedd y weledigaeth honno'n fwy cymhleth nag y tybir yn aml. Gyda'r hiwmor mawr a'r ymateb dilestair i harddwch byd natur a dengarwch merch, fe gydfyddai ymwybod dwfn a phoenus â'r elfennau croes ym mhrofiad dyn ac ag anocheledd angau a barn. Er bod Morfudd yn addo iddo baradwys, ac yn wir fel petai'n gallu ei ddwyn yno ar brydiau, eto y Sarff oedd drechaf yn y diwedd. Methiant fu ei ymgais i ddwyfoli serch, er mor herfeiddiol yr arferai alw ar Dduw a'r saint i'w helpu yn ei helyntion carwriaethol gynt. Yn y diwedd, pa mor gyfiawn bynnag oedd ei brotest yn erbyn rhai agweddau ar ddysgeidiaeth ei Eglwys ynglŷn â pherthynas mab a merch, daeth i deimlo – neu felly'r ymddengys – fod rhaid iddo gydnabod ei hawdurdod a phlygu i'w threfn. Nid oes ond gobeithio iddo gael yr heddwch a'r cymod a ddeisyfai. (t. 51)

Dyna baragraff campus sy'n rhoi golwg gryno ar Ddafydd ap Gwilym y bardd a'r dyn, yn ysgolheigaidd ofalus ond eto'n gwbl bendant a huawdl am ragoriaethau ei farddoniaeth, ac yn hollol onest wrth dafoli ei fywyd mewn goleuni ysbrydol.

Wrth i ni adael yr Oesoedd Canol a dod at gyfnod y Dadeni Dysg rydym yn cyrraedd maes ymchwil cynharaf Geraint Gruffydd. Pwnc ei draethawd DPhil yn Rhydychen oedd rhyddiaith grefyddol Gymraeg o oes y Frenhines Elisabeth hyd yr Adferiad, ac mae nifer o'i gyhoeddiadau cynnar yn ymdrin â llynyddiaeth y Diwygiad Protestannaidd a'r Gwrth-ddiwygiad yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

Unwaith eto, roedd ganddo ddiddordeb arbennig yng ngwaith yr arloeswyr, yn enwedig y rhai a arloesodd gydag argraffu llyfrau, gwŷr megis Syr Siôn Prys, awdur y llyfr printiedig cyntaf yn y Gymraeg, sef y gyfrol fechan *Yny lhyvyr hwnn* a gyhoeddwyd yn 1546, gan ddefnyddio'r dechnoleg newydd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a gwybodaeth o elfennau'r ffydd Gristnogol.

Neu'r dyneiddiwr Humphrey Llwyd, y cyntaf i lunio map o Gymru ar wahân, map a gafodd ei argraffu gan Ortelius yn Antwerp yn 1573, a gŵr a chwaraeodd

ran bwysig fel cynrychiolydd bwrdeistref Dinbych yn senedd 1563 trwy berswadio Tŷ'r Cyffredin i basio deddf yn gorchymyn cyfieithu'r Beibl i'r iaith Gymraeg.

Ac yn 1971 traddododd Geraint ddarlith gerbron Cymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain ar Siôn Dafydd Rhys, gŵr hynod iawn a dreuliodd ryw ddeunaw mlynedd yn yr Eidal yn ymgydnabod â dysg y Dadeni yn ei gartref gwreiddiol, gan gyhoeddi llawlyfr Lladin ar ynghaniad yr iaith Eidaleg yn 1569, ac a aeth ymlaen ar ôl dychwelyd i Gymru, i gyhoeddi gramadeg o'r iaith Gymraeg yn Lladin er mwyn i'r byd dysgedig gael gweld gogoniant yr iaith.

Y tu allan i Gymru yr argraffwyd y llyfrau hyn i gyd, ac ni chafwyd argraffwasg swyddogol yng Nghymru tan y ddeunawfed ganrif, ond fe gafwyd argraffu answyddogol yma tipyn cyn hynny, a dewisodd Geraint drafod yr hanes hwnnw yn ei ddarlith agoriadol fel Athro'r Gymraeg yn Aberystwyth yn 1972, *Argraffwyr Cyntaf Cymru: gwasgau dirgel y Catholigion adeg Elisabeth*. Cafodd o leiaf ddwy wasg ddirgel eu sefydlu i argraffu llyfrau Catholig mewn cyfnod o erledigaeth greulon ar y Catholigion ym Mhrydain. Roedd y naill mewn ogof ger Llandudno, lle'r argraffwyd llyfr o'r enw *Y Drych Cristnogol* yn 1587. Hwnnw oedd y llyfr cyntaf erioed i'w argraffu ar ddaear Cymru, ac mae'r unig gopi perffaith yn yr adeilad hwn. Ac fe fu'r ail wasg ddirgel efallai yn nhŷ y dyneiddiwr Siôn Dafydd Rhys yn Aberhonddu, hefyd yn 1587. Er mai Protestaniaid yw Geraint Gruffydd o ran argyhoeddiad, mae'n amlwg ei fod yn edmygu dewrder y dynion hyn a oedd yn barod i fentro eu bywydau dros eu crefydd.

Uchafbwynt y Dadeni Dysg a'r Diwygiad Protestannaidd yng Nghymru oedd cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg, ac i Geraint Gruffydd mae'r Beibl Cymraeg yn gyswllt hollbwysig rhwng ei waith academaidd a'i ffydd Gristnogol. Mae wedi cyhoeddi ar y prif gyfieithwyr i gyd, William Salesbury, Richard Davies, William Morgan, Richard Parry a John Davies, gan gynnwys erthygl gynhwysfawr awdurdodol ar William Morgan yn yr *Oxford Dictionary of National Biography*, ac yn 1988 fe olygodd gyfrol gyda'r teitl *Y Gair ar Waith* i ddathlu pedwarcanmlwyddiant cyhoeddi cyfieithiad William Morgan. Er mwyn dangos pwysigrwydd y cyfieithiad hwnnw yn ei olwg ef ni allaf wneud yn well na dyfynnu o ddarlith a draddododd yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn 1985 dan y teitl 'Cymwynas William Morgan', ac a ailgyhoeddwyd yn y gyfrol hwylus, *Y Ffordd Gadarn: Ysgrifau ar Lên a Chrefydd gan R. Geraint Gruffydd* a olygwyd gan Wyn James:

Pam yr oedd y gwaith hwn mor bwysig? Wel, yn y lle cyntaf, fe achubodd yr iaith Gymraeg. Yr oedd Lloegr wedi troi'n Brotestannaidd ryw genhedlaeth ynghynt ac wedi deddfu mai'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin Saesneg, ac nid y llyfrau gwasanaeth Lladin, a ddefnyddid yn y plwyfi o hynny ymlaen. Gan fod Cymru'n rhan gyfreithiol o Loegr ers Deddf Uno 1536, y Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin Saesneg a ddefnyddid yn ei phlwyfi hithau oni bai fod dynion hirben wedi gweld y perygl a dyfeisio ffordd o'i osgoi. Er y byddai'r rhan fwyaf o ddigon o'r Cymry yn deall llai ar y llyfrau Saesneg nag a wnaent ar y llyfrau Lladin a oedd ganddynt o'r blaen, nid oes dim amheuaeth na fyddai eu clywed yn cael eu darllen yn rheolaidd o Sul i Sul yn y plwyfi yn cael effaith andwyol iawn ar

yr iaith Gymraeg ac yn peri y byddai hi'n gyflym yn dirywio yn ddim ond bratiaith ddirmygedig. Diolch i wŷr fel William Salesbury, Richard Davies, Humphrey Llwyd a William Morgan fe osgowyd y perygl hwnnw.

Yn ail fe roddodd William Morgan i'r Cymry batrwm o ryddiaith safonol, ystywyth ac urddasol. Fel y soniais, heblaw bod yn ysgolhaig ardderchog yn ieithoedd gwreiddiol y Beibl, yr oedd Morgan hefyd yn llenor Cymraeg tan gamp. Mae miwsig ei gyfieithiad yn ddigymar, ac 'r wy'n amau a gafwyd coethach trosiad o'r Beibl mewn unrhyw iaith.

Yn drydydd, ac yn bwysicaf o ddigon, fe allai'r Cymro bellach glywed yn ei iaith ei hun am fawrion weithredoedd Duw, ac yn enwedig am ei bennaf gweithred yn anfon ei Fab i farw er ei fwyn. Ac fe glywodd y Cymro! Drwy bregethu'r Piwritaniaid, drwy efengylu tanllyd y Methodistiaid, drwy ddiwygiadau mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed, daeth y Cymry i raddau pell yn genedl grediniol, ac fe ddaeth Beibl William Morgan – yn y ffurf ddiwygiedig arno a gyhoeddwyd gan yr Esgob Richard Parry a Dr John Davies yn 1620 – yn fwyd i'w henaid. Mae'n rhyfedd meddwl fod ar gannoedd ar filoedd o'n cyd-wladwyr ar draws y canrifoedd ddyled ysbrydol uniongyrchol i'r offeiriad plwyf diwyd a oedd yn llafurio yn y fangre dawel hon bedair canrif union yn ôl.

Mae sôn yn fan yna am Feibl William Morgan yn rhoi 'patrwm o ryddiaith safonol, ystywyth ac urddasol', ac i'm tyb i mae'r un ymadrodd yn ddisgrifiad cymwys iawn o ryddiaith Geraint Gruffydd ei hun – safonol, ystywyth ac urddasol. Mae ganddo ddawn arbennig i egluro pethau cymhleth yn gofiadwy a heb orsymleiddio, ac i ddatgan gwerth y gwaith dan sylw yn groyw, a dyna pam mae darllen ei ysgrifau bob amser yn bleser pur.

Fe fu'r Beibl Cymraeg yn sylfaen ar gyfer traddodiad o ryddiaith grefyddol yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed, ac mae Geraint wedi cyhoeddi'n helaeth ar y traddodiad hwnnw, gan gychwyn mor gynnar â 1949 gydag ysgrif yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd* (cylchgrawn, gyda llaw, y bu'n gyd-olygydd arno am bedair blynedd yn y 50au). Morgan Llwyd, Williams Pantycelyn ac Ann Griffiths yw'r awduron a ddenodd ei sylw yn arbennig. Ond rwyf am symud ymlaen nawr at gyhoeddiadau Geraint Gruffydd ym maes llenyddiaeth yr ugeinfed ganrif.

Fe welson ni eisoes fod Geraint Gruffydd yn hoff iawn o drafod llenorion sy'n tystiolaethu am eu ffydd ac yn mynegi'u profiad ysbrydol yn eu gwaith, ac felly nid yw'n syndod mai'r ddau awdur sydd wedi apelio ato fwyaf, a barnu wrth ei gyhoeddiadau, yw Waldo Williams a Saunders Lewis. Nid oes gwell cyflwyniad cyffredinol i farddoniaeth Waldo na'i ysgrif a gyhoeddwyd yn *Taliesin* yn 1986, 'Waldo Williams: Un llef, pedwar llais', ac mae Geraint hefyd yn ei elfen yn mynd i'r afael â cherddi unigol heriol fel cerdd serch Waldo, 'Oherwydd ein Dyfod', a cherdd grefyddol fawr Saunders Lewis, 'Mair Fadlen'.

O ran Saunders Lewis, mae Geraint Gruffydd wedi gwneud cymwynas fawr trwy olygu rhannau pwysig o'i waith, sef y casgliad o'i ysgrifau beirniadol,

Meistri'r Canrifoedd yn 1973, a'r casgliad o'i farddoniaeth, *Cerddi Saunders Lewis* a gyhoeddwyd gan Wasg Gregynog yn 1986, flwyddyn ar ôl iddo farw, a Geraint yn gweithredu fel sgutor llenyddol iddo. Byddai'n deg dweud bod Geraint wedi gweithredu fel lladmerydd i Saunders Lewis, nid yn unig trwy gyflwyno a dehongli ei waith mor fedrus, ond hefyd trwy adeiladu ar ei weledigaeth o wareiddiad Cymraeg hanfodol Gristnogol.

Mae arna'i ofn mai detholiad bychan yn unig o ysgolheictod yr Athro Geraint Gruffydd yr wyf wedi gallu sôn amdano y prynhawn yma, ond rwy'n gobeithio i mi ddweud digon i roi syniad i chi o rychwant rhyfeddol ei waith, o'r corff ysblennydd o feirniadaeth lenyddol a roddodd inni, ac o bwysigrwydd ei gyfraniad arhosol i lenyddiaeth Gymraeg.

Mae Geraint Gruffydd wedi derbyn nifer o anrhydeddau eisoes – gan Brifysgol Cymru, gan yr Academi Brydeinig, a chan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, i enwi ond rhai – ac mae'n dra phriodol bod Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn awr yn ei anrhydeddu hefyd. Galwaf felly ar Lywydd y Cymmrodorion, yr Athro Prys Morgan, i gyflwyno medal y Gymdeithas iddo.

Rhestr o'r cyhoeddiadau y cyfeiriwyd atynt

'Canu Cadwallon ap Cadfan', yn *Astudiaethau ar yr Hengerdd: Studies in Old Welsh poetry, cyflwynedig i Syr Idris Foster*, gol. Rachel Bromwich a R. Brinley Jones (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1978), tt. 25-43.

'Marwnad Cynddylan', yn *Bardos: Penodau ar y Traddodiad Barddol Cymreig a Cheltaidd, cyflwynedig i J. E. Caerwyn Williams*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1982), tt. 10-28.

'From Gododdin to Gwynedd: Reflections on the Story of Cunedda', *Studia Celtica*, 24/25 (1989/90), 1-14.

'*Edmyg Dinbych*': *Cerdd Lys Gynnar o Ddyfed*, Darlith Goffa J. E. Caerwyn a Gwen Williams 2001 (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2002).

'“Cyntefin ceinaf amser” o Lyfr Du Caerfyrddin', yn *Ysgrifau Beirniadol, IV*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1969), 12-26.

Cyfes Beirdd y Tywysogion, cyfrolau I-VII (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1991-96).

Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1997).

'Sylwadau ar Gywydd “Offeren y Llwyn” Dafydd ap Gwilym', yn *Ysgrifau Beirniadol, X*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1977), 181-9.

'Sylwadau ar Gywydd “Yr Adfail” gan Dafydd ap Gwilym', yn *Ysgrifau Beirniadol, XI*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1979), 109-15.

'Cywyddau Triawdaidd Dafydd ap Gwilym: Rhai Sylwadau', yn *Ysgrifau*

Beirniadol, XIII, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1985), 167–77.

Dafydd ap Gwilym, Llên y Llenor (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1987).

‘Yny lhyvyr hwnn 1546: The Earliest Welsh Printed Book’, *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 23, ii (1969), 105–16.

‘Humphrey Llwyd: Dyneiddiwr’, *Efrydiau Athronyddol*, 33 (1970), 57–74.

‘The Life of Dr John Davies of Brecon (Siôn Dafydd Rhys)’, *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1971), Part II, 175–90.

Argraffwyr Cyntaf Cymru: Gwasgau Dirgel y Catholigion adeg Elisabeth (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1972).

‘Y Gair ar Waith’: *Ysgrifau ar yr Etifeddiaeth Feiblaidd yng Nghymru*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988).

‘Cymwynas William Morgan’, yn *Y Ffordd Gadarn: Ysgrifau ar Lên a Chrefydd gan R. Geraint Gruffydd*, gol. E. Wyn James (Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Bryntirion, 2008), tt. 130–33.

‘Yr Ysgrhythur lân yn eich iaith [. . .]’, *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 1, iv (Mai/Mehefin 1949), 37–41.

‘Waldo Williams: Un Llef, Pedwar Llais’, *Taliesin*, 57 (Hydref 1986), 27–43.

Meistri'r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg gan Saunders Lewis, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1973).

Cerddi Saunders Lewis, gol. R. Geraint Gruffydd (Y Drenewydd: Gwasg Gregynog, 1986).

Ceir rhestr lawn o gyhoeddiadau R. Geraint Gruffydd hyd at 1995 yn *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban, cyflwynedig i R. Geraint Gruffydd*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru / Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1995), tt. 326–48.

TRANSLATION

*Presentation of the Cymmrodorion Medal to Professor R. Geraint Gruffydd
National Library of Wales, 15 February 2014*

*Address by Professor Dafydd Johnston
Director of the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies*

This opportunity to introduce Professor R. Geraint Gruffydd is a great personal honour and pleasure for me, for a number of reasons. It is an opportunity, in the first place, to acknowledge my debt to him as the first Director of the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies and the person responsible for setting it on strong academic foundations. But my personal debt to Geraint goes back quite a bit further than that, because he was the head of the Department of Welsh when I came

to Aberystwyth as a research student in 1978, and to someone like me, accustomed to the English formality of Cambridge, the warmth of the welcome I received from Professor Gruffydd was a delight, and I can say, like many others in the Welsh academic world, that his continuing interest in my work in the years since then has been a great encouragement to me. Between his periods of time in the Welsh department and in the Canolfan, Geraint held another senior appointment, that of Librarian at the National Library, and so it is particularly fitting that it is in this building that we are gathered today to pay tribute to him.

As well as an opportunity to acknowledge a debt, this presentation has also given me enormous pleasure because it has provided an excuse to re-read a number of Professor Gruffydd's publications, and I hope to share something of that pleasure with you now by giving an overview of his work and reading some extracts to you to give a flavour of his lucid prose style.

The first thing which strikes anyone looking at the published work of Geraint Gruffydd is the breadth of his academic interests. Over a period of more than sixty years he has published important work on every period of Welsh literary history. And so what I want to do now is to take you on a journey through some of the highlights of the Welsh literary tradition in the company of Professor R. Geraint Gruffydd.

Two aspects of his work stand out, over and over again, and these are, I think, very attractive aspects. One is his interest in writers as individuals – his sympathy, identification, admiration, and desire to celebrate their achievements. And the other aspect is his emphasis on origins and turning-points. The pioneers are the ones who have attracted him most, the authors who took the tradition in new directions. And throughout all his work is the attention he gives to what is permanent and essential to the Christian civilization of Wales.

It is not surprising, then, that the work of the *Cynfeirdd* (the earliest poets) has been a consistent interest of his, especially those scattered poems between the seventh and eleventh centuries which prove that the tradition of the court poets continued after the time of Taliesin and Aneirin, and where we see the Christian faith as an essential element of praise poetry for the first time.

One of these poems is 'Canu Cadwallon ap Cadfan' ('The Song of Cadwallon ap Cadfan'), which was the topic of Geraint Gruffydd's chapter in the volume *Astudiaethau ar yr Hengerdd* (a volume published in honour of his Oxford teacher Sir Idris Foster). This song of praise to Cadwallon, king of Gwynedd around 625–35, is the earliest poem which mentions Wales as such, and the poem which contains the earliest example in Welsh of the name *Crist*.

Another volume published to celebrate an individual scholar was *Bardos*, edited by Geraint Gruffydd himself in 1982 in honour of Professor J. E. Caerwyn Williams, a man who had a crucial influence on Geraint Gruffydd throughout his career, as his tutor in Bangor and later on as his colleague at Aberystwyth University and in the Canolfan. In this volume, Geraint chose to discuss 'Marwnad Cynddylan' ('Elegy to Cynddylan'), interpreting it as a genuine poem to the prince of Powys from the middle of the seventh century (as distinct from the later saga poetry where Heledd mourns for her brother Cynddylan). Geraint Gruffydd has been keen to defend the historical authenticity of the early poetry, often in the face of sceptical criticism

from some historians.

This is also true in the case of the history of King Cunedda. In a public lecture, 'From Gododdin to Gwynedd: Reflections on the Story of Cunedda', Geraint argued that there is a kernel of truth in the traditions about Cunedda coming down from the north of Britain to Wales in the fifth century and establishing the kingdom of Gwynedd, driving out the Irish who had settled in Wales. And it is significant that this talk was given as the O'Donnell Lecture at the University of Edinburgh in 1989, since it is the ancient connection between Wales and the Old North which is at the root of the history of Cunedda. A striking number of Geraint Gruffydd's publications were originally given as public lectures, and this is an example of his gift for finding the appropriate topic for the occasion.

Geraint Gruffydd has taken a strong interest in regional traditions: as well as his work on the early history of Gwynedd and Powys, he has studied the scarcer traces which survive of the early history of Dyfed and Dehaubarth. One particular poem which claimed his attention in this area is 'Edmyg Dinbych' ('In Praise of Tenby'), a poem from the last quarter of the ninth century which describes a court at Tenby. Geraint chose this poem as the topic of his J. E. Caerwyn Williams and Gwen Williams memorial lecture in 2001, emphasizing that the Christian element was by this time wholly central to the praise of the poet, who begins his poem by calling on God.

The expression of personal spiritual experience in poetry is another matter, and Geraint Gruffydd is a critic who is in his element when analyzing poems of this kind, as we can see in his penetrating discussion of the charming and enigmatic lyric, 'Cyntefin ceinaf amser' ('Spring, the fairest time'), preserved in the Black Book of Carmarthen (the oldest Welsh manuscript of all, which can be seen in a current exhibition in this building). According to Geraint Gruffydd's analysis, this poem is the work of an anonymous twelfth-century monk who expresses a complex response to the coming of spring when his longing for his lost friends turns into hope for everlasting life through Christ's deliverance. This article is one of a number published by Geraint Gruffydd in the book series *Ysgrifau Beirniadol* ('Critical Essays') which were groundbreaking as regards the literary treatment of the earliest poetry, and where scholarship and imagination were combined very productively. And the influence of the editor of the series, Caerwyn Williams, is clearly evident in those articles.

There is a considerable difference between this short lyric and the majestic praise poems of the court poets of the same period, and it is a measure of the greatness of Geraint Gruffydd that his work encompasses the two poles, the sensitive literary criticism needed to interpret a single poem and the textual scholarship required to complete the huge task of editing the work of the Poets of the Princes. And this brings us to Geraint's greatest achievement. For many years, the abstruse work of the court poets of the twelfth and thirteenth centuries formed one of the most inaccessible strands of the bardic tradition. But with the foundation of the Canolfan in 1985, Geraint Gruffydd had the opportunity to lead a team of researchers to edit all the poems of the Poets of the Princes in a magisterial series of seven volumes published by the University of Wales Press between 1991 and 1996. And I know that Geraint would want me to name his colleagues on that team,

Morfydd Owen, Ann Parry Owen, Nerys Ann Jones, and Peredur Lynch, not to mention the invaluable advice of Professor Caerwyn Williams. Working in a team of that kind was something new in the field of the humanities at that time, and the success of the project testified to Geraint's ability as an academic leader.

The end of the period of the Princes was a time of crisis for the bardic order and it led to a great turning point in the history of Welsh literature which has inspired some of Geraint Gruffydd's best work. One response to that crisis was the Bardic Grammars, that is, an attempt to preserve the old art of the Poets of the Princes and adapt it for the new age in order to ensure the continuity of the tradition after the Edwardian conquest. The Grammars were mainly the work of clerics and their desire to preserve the moral basis of the bardic tradition was an important contribution in a period of transformation. Geraint focused his attention in the first place on a key individual, Dafydd Ddu of Hiraethog, canon of the cathedral church of St Asaph, and then went on to edit the poetry of the two main grammarians in the volume *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, co-edited with Rhiannon Ifans in the series 'Beirdd yr Uchelwyr' ('The Poets of the Gentry'), a series for which Geraint has been Advisory Editor since he officially retired from the Canolfan in 1993.

The second literary response to the crisis in Wales in the fourteenth century was the new style of poetry which is associated particularly with the great pioneer, Dafydd ap Gwilym. He is one of the writers to whom Geraint Gruffydd has returned many times over the years, building a rich corpus of criticism. Once again, the series *Ysgrifau Beirniadol* provided a medium for his careful and penetrating interpretations. I can attest that his work on Dafydd ap Gwilym has been an inspiration to me – articles such as the one on 'Offeren Y Llwyn' ('The Mass of the Grove', 1977), which shows how important the rituals of the church were to Dafydd's imagination, with the thrush as preacher uttering the words of the mass in the woodland church; his essay on 'Yr Adfail' ('The Ruin', 1979) which he places in a long tradition of Welsh, Old English, Latin, and Irish poetry about the contemplation of ruins (and there is an example of the breadth of Geraint Gruffydd's literary horizons), followed by his article on Dafydd's triadic poems (1985); and as the pinnacle of all this, his brilliant volume in the series 'Llên y Lenor' ('The Writer's Works') in 1987 which attempted to reconstruct the life of the poet and his love affairs, in particular his long and tortuous relationship with Morfudd.

It is time now for you to hear the voice of Geraint Gruffydd himself, so here is part of the conclusion to that volume:

Reading the work of Dafydd ap Gwilym, we are conscious that we are in the presence of genius. There is no doubt that he was one of the great poets of Europe in the late Middle Ages and one of the greatest poets of Wales in any age – perhaps the greatest of all. We could easily believe that he was a poet by birth, remembering his distinguished descent from Cuhelyn Fardd and Gwynfardd Dyfed two and a half centuries earlier. It is certain that he had quite extraordinary natural gifts. He responded to the world and to life

with sharpened and passionate senses. He was easily able to master the difficult craft of the professional Welsh poets along with a good portion of their work throughout the ages. He also took on board the modes and material of the lower-ranked poets who had somehow inherited many of the conventions of European love poetry going back three centuries – and perhaps, as we have seen, had his own direct access to some elements of that tradition. He revolutionized the world of Welsh poetry by inventing, or at least popularizing, the new metre of the *cywydd* and creating in it a corpus of skilful and exuberant love poetry whose like had never been seen before. But his greatest achievement, without a doubt, was to create the story of Morfudd. Through this story Dafydd could express fully his vision of life. That vision was more complex than is often supposed. Along with the great humour and the untrammelled response to the beauty of the natural world and the attractiveness of a woman there co-existed a deep and painful awareness of the darker elements of human experience and the inevitability of death and judgement. Though Morfudd promised him paradise, and indeed it was as if she could take him there at times, yet the serpent was stronger in the end. His attempt to deify love was a failure, even though he used to call so daringly on God and the saints to help him in his romantic tribulations. In the end, however justified was his protest against some aspects of the teaching of his Church concerning the relationship between a man and a woman, he came to feel – or so it appears – that he had to recognize its authority and bend to its rule. One can only hope that he found the peace and reconciliation that he desired. (p. 51)

This splendid paragraph, which gives us a concise view of Dafydd ap Gwilym the poet and the man, is scholarly and thoughtful but also very positive and eloquent about the distinctive strengths of his poetry and totally honest in evaluating his life in a spiritual light.

Leaving the Middle Ages and coming to the period of the Renaissance, we arrive at Geraint Gruffydd's earliest field of research. The topic of his DPhil thesis at Oxford was Welsh religious prose from the Elizabethan period to the Restoration, and a number of his early publications deal with the literature of the Protestant Reformation and the Counter-Reformation in the sixteenth century.

Once again, he had a particular interest in the work of pioneers, especially those who led the way with printed books, men like Sir John Prise, the author of the first printed book in Welsh, the little volume called *Yny lhygyr hwwn* ('In this book') which was published in 1546, using the new technology of printing to promote the Welsh language and a knowledge of the elements of the Christian faith.

Or the humanist Humphrey Llwyd, the first person to draw a map of Wales on its own, a map which was published by Ortelius in Antwerp in 1573, and a man who played an important part as member of parliament for the borough of Denbigh in 1563 in persuading the House of Commons to pass an act commanding that the

Bible be translated into Welsh.

And in 1971, Geraint delivered a lecture to the Cymmrodorion Society in London on Siôn Dafydd Rhys, a very remarkable man who spent eighteen years in Italy familiarizing himself with Renaissance learning in its original home, where he published a Latin handbook on the pronunciation of Italian in 1569, and after returning to Wales went on to publish a grammar of the Welsh language in Latin in order that the educated world could see the glory of the language.

These books were published outside Wales, and there was no official printing press in Wales until the eighteenth century, but some unofficial printing happened here some time before then and Geraint chose to discuss that story in his inaugural lecture as Professor of Welsh in Aberystwyth in 1972, published as *Argraffwyr Cyntaf Cymru: Gwasgau Dirgel y Catholigion adeg Elisabeth* ('The First Printers of Wales: Catholic Secret Presses at the time of Elizabeth'). At least two secret presses were established to print Catholic books at a time of cruel persecution of Catholics in Britain. One of the presses operated in a cave near Llandudno, where a book called *Y Drych Cristnogol* ('The Christian Mirror') was published in 1587. That was the first book ever to be printed on Welsh soil and the only perfect copy exists here in this building. The second secret press was likely to have been in the house of the humanist Siôn Dafydd Rhys in Brecon, also in 1587. Though Geraint Gruffydd is a Protestant by conviction, he is obviously an admirer of the courage of those men who were ready to risk their lives for their faith.

In Wales, the high point of the Renaissance and the Reformation was the translation of the Bible into Welsh, and for Geraint Gruffydd the Welsh Bible is the all-important link between his academic work and his Christian faith. He has published on all the main translators of the Bible, William Salesbury, Richard Davies, William Morgan, Richard Parry, and John Davies, including the comprehensive and authoritative entry on William Morgan in the *Oxford Dictionary of National Biography*, and in 1988 he edited a volume called *Y Gair ar Waith* ('The Word at Work') to celebrate the four-hundredth anniversary of the publication of William Morgan's translation. In order to show the importance of that translation in his view, I cannot do better than quote from a lecture he delivered in Llanrhaeadr-y-Mochnant in 1985 entitled 'Cymwynas William Morgan' ('William Morgan's Gift'), republished in a useful volume, *Y Ffordd Gadarn: Ysgrifau ar Lên a Chrefydd gan R. Geraint Gruffydd* ('The Steadfast Way: Essays on Literature and Religion by R. Geraint Gruffydd'), edited by Wyn James:

Why was this work so important? Well, in the first place, it saved the Welsh language. England had turned Protestant a generation earlier and had legislated that the English Bible and Book of Common Prayer, and not the books of the Latin service, should be used in the parishes from then on. Since Wales was legally part of England under the Act of Union of 1536, the English Bible and Book of Common Prayer would have been used in its parishes as well, were it not that shrewd men saw the danger and thought of a way of avoiding it. Although the vast majority of Welsh people understood less of the English books than of the Latin books which they had been using

before, there was no doubt that hearing them being read regularly from one Sunday to another in the parishes would have had a very detrimental effect on the Welsh language and would have caused it to deteriorate quickly into nothing but a debased and despised language. Thanks to men like William Salesbury, Richard Davies, Humphrey Llwyd, and William Morgan, that danger was avoided.

Secondly, William Morgan gave to the Welsh a model of authoritative, flexible, and dignified prose. As I have mentioned, besides being an excellent scholar in the original languages of the Bible, Morgan was also an outstanding writer of Welsh. The music of his translation is incomparable, and I doubt that there is a finer translation of the Bible in any language.

Thirdly, and most important by far, the Welshman could now hear in his own language about the great acts of God, and especially about his greatest act in sending his Son to die for his sake. And the Welshman heard! Through the preaching of the Puritans, through the fervent evangelizing of the Methodists, through the great revivals of the nineteenth century and the beginning of the twentieth, the Welsh became to a great extent a nation of believers and the Bible of William Morgan – in the revised version published by Bishop Richard Parry and Dr John Davies in 1620 – was food for their souls. It is marvellous to think that hundreds of thousands of our compatriots over the centuries owe a direct spiritual debt to the diligent parish priest who laboured in this quiet place exactly four centuries ago.

This piece refers to the Bible of William Morgan providing ‘a model of authoritative, flexible, and dignified prose’ and in my view the same phrase is a true and fitting description of the prose of Geraint Gruffydd himself – authoritative, flexible, and dignified. He has a particular gift for explaining complex ideas in a memorable way without over-simplifying them and for lucidly stating the value of the work being discussed, which is why reading his essays is always pure pleasure.

The Welsh Bible was the foundation for a tradition of religious prose in the seventeenth and eighteenth centuries, and Geraint has published widely on that tradition, starting as early as 1949 with an essay in *Y Cylchgrawn Efengylaidd* (‘The Evangelical Magazine’, a journal which, by the way, he co-edited for four years in the 1950s). Writers who attracted his attention in particular were Morgan Llwyd, Williams Pantycelyn, and Ann Griffiths. But I will move on now to Geraint Gruffydd’s publications in the field of twentieth-century literature.

We have seen already that Geraint Gruffydd likes to discuss writers who profess their faith and express their spiritual experience in their work, and so it is not surprising that the two writers who appeal to him most, judging by his publications, are Waldo Williams and Saunders Lewis. There is no better general introduction to the poetry of Waldo Williams than Geraint’s essay published in *Taliesin* in 1986, ‘Waldo Williams: Un Llef, Pedwar Llais’ (‘Waldo Williams: One Cry, Four Voices’), and Geraint is also in his element getting to grips with individual

challenging poems such as Waldo's love poem, 'Oherwydd ein dyfod' ('Because of our coming'), and the great religious poem by Saunders Lewis, 'Mair Fadlen' ('Mary Magdalen').

With regard to Saunders Lewis, Geraint Gruffydd has done us a great favour by editing some important pieces of his work, namely a collection of his literary criticism, *Meistri'r Canrifoedd* ('Masters of the Centuries'), in 1973 and the collection of his poetry, *Cerddi Saunders Lewis* ('The Poetry of Saunders Lewis'), published by the Gregynog Press in 1986, the year after his death, when Geraint acted as his literary executor. It would be fair to say that Geraint has acted as interpreter to Saunders Lewis, not only by presenting and expounding his work so skilfully but also through building on his vision of an essentially Christian Welsh culture.

I am afraid that I have been able to mention only a small selection of the scholarship of Professor Geraint Gruffydd this afternoon but I hope I have said enough to give you an idea of the amazing range of his work, the splendid corpus of literary criticism which he has given to us, and the importance of his lasting contribution to Welsh literature.

Geraint Gruffydd has received a number of honours already – from the University of Wales, from the British Academy, and from the Learned Society of Wales, to name only a few – and it is most appropriate that the Honourable Society of Cymmrodorion is now honouring him as well. I therefore call on the President of the Society, Professor Prys Morgan, to present the Society's medal to him.

List of publications by R. Geraint Gruffydd referred to in the presentation

'Canu Cadwallon ap Cadfan', in *Astudiaethau ar yr Hengerdd: Studies in Old Welsh poetry, cyflwynedig i Syr Idris Foster*, ed. by Rachel Bromwich and R. Brinley Jones (Cardiff: University of Wales Press, 1978), pp. 25-43.

'Marwnad Cynddylan', in *Bardos: Penodau ar y Traddodiad Barddol Cymreig a Cheltaidd, cyflwynedig i J. E. Caerwyn Williams*, ed. by R. Geraint Gruffydd (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1982), pp. 10-28.

'From Gododdin to Gwynedd: Reflections on the Story of Cunedda', *Studia Celtica*, 24/25 (1989/90), 1-14.

'Edmyg Dinbych': *Cerdd Lys Gynnar o Ddyfed*, J. E. Caerwyn and Gwen Williams Memorial Lecture 2001 (Aberystwyth: Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, 2002).

'“Cyntefin ceinaf amser” o Lyfr Du Caerfyrddin', in *Ysgrifau Beirniadol, IV*, ed. by J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1969), 12-26.

Cyfes Beirdd y Tywysogion, vols I-VII (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1991-96).

Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug, ed. by R. Geraint Gruffydd and Rhiannon Ifans (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1997).

- ‘Sylwadau ar Gywydd “Offeren y Llyn” Dafydd ap Gwilym’, in *Ysgrifau Beirniadol*, X, ed. by J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1977), 181–9.
- ‘Sylwadau ar Gywydd “Yr Adfail” gan Dafydd ap Gwilym’, in *Ysgrifau Beirniadol*, XI, ed. by J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1979), 109–15.
- ‘Cywyddau Triawdaidd Dafydd ap Gwilym: Rhai Sylwadau’, in *Ysgrifau Beirniadol*, XIII, ed. by J. E. Caerwyn Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1985), 167–77.
- Dafydd ap Gwilym*, Llên y Llenor (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1987).
- ‘Yny lhyvyr hwnn 1546: The Earliest Welsh Printed Book’, *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 23, ii (1969), 105–16.
- ‘Humphrey Llwyd: Dyneiddiwr’, *Efrydiau Athronyddol*, 33 (1970), 57–74.
- ‘The Life of Dr John Davies of Brecon (Siôn Dafydd Rhys)’, *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1971), Part II, 175–90.
- Argraffwyr Cyntaf Cymru: Gwasgau Dirgel y Catholigion adeg Elisabeth* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1972).
- ‘Y Gair ar Waith’: Ysgrifau ar yr Etifeddiaeth Feiblaidd yng Nghymru*, ed. by R. Geraint Gruffydd (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988).
- ‘Cymwynas William Morgan’, in *Y Ffordd Gadarn: Ysgrifau ar Lên a Chrefydd gan R. Geraint Gruffydd*, ed. by E. Wyn James (Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Bryntirion, 2008), pp. 130–33.
- ‘Yr Ysgrythur lân yn eich iaith [. . .]’, *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 1, iv (Mai/Mehefin 1949), 37–41.
- ‘Waldo Williams: Un Llef, Pedwar Llais’, *Taliesin*, 57 (Hydref 1986), 27–43.
- Meistri’r Canrifoedd: Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg gan Saunders Lewis*, ed. by R. Geraint Gruffydd (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1973).
- Cerddi Saunders Lewis*, ed. by R. Geraint Gruffydd (Y Drenewydd: Gwasg Gregynog, 1986).

A full list of publications by R. Geraint Gruffydd up to 1995 can be found in *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a’r Alban, cyflwynedig i R. Geraint Gruffydd*, ed. by Morfydd E. Owen and Brynley F. Roberts (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru / Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1995), pp. 326–48.